

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mawrth 11eg 2014 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Jean Roberts (Cadeiryddes), Geraint Davies, Gwynedd Jones, Geraint Jones, Gwilym Davies, Arwel Davies, Gwynfryn Williams a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Euros Puw, Rhys Richards a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Datgan Buddiant.

Datganodd Gwynedd Jones ei fuddiant i'r cyfraniad ariannol i Cantref a hefyd Jean Roberts ac Arwel Davies i'r cyfraniad ariannol i Neuadd y Parc.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Gwefan i'r cynghorau cymuned.

Roedd y clerch wedi derbyn cadarnhad bod dyddiad cau'r cynllun wedi cael ei newid i fis Awst ac felly roedd digon o amser i gwblhau'r wefan. Cytunwyd mai dewis y Cyngor oedd cadw'r prosiect yn lleol a rhoi'r gwaith i HG Web Designs. Cytunodd y clerch i gydweithio gyda'r Cynghorau eraill dros y misoedd nesaf i ddatblygu'r wefan.

b) Cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd.

Gan na chafwyd ymateb i nifer o'r cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd dros y misoedd diwethaf gofynnwyd i'r clerch ail gysylltu â hwy.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn/ Cwmni Pum Plwy Penllyn.

i) Cafwyd adroddiad o ddatblygiadau diweddaraf Canolfan yr Henblas. Adroddodd y clerch ei bod wedi mynychu'r diwrnod agored ym mis Ionawr ac roedd posib i unrhyw un a oedd gyda diddordeb mewn rhentu ystafell gysylltu â'r swyddog marchnata i gael rhagor o wybodaeth.

ii) Roedd y clerch wedi derbyn cais i'r Cyngor gyd arwyddo'r cytundeb blynyddol rhwng y Bartneriaeth a Chyngor Gwynedd. Cytunwyd i'r clerch drefnu gyda'r Cadeirydd i'w arwyddo pan fyddai yn dod i law.

b) Cyngor Gwynedd

i) Derbyniwyd copi o'r rhybudd gwaharddiad trafndiaeth – Bwlch y Buarth, Arenig.

ii) Derbyniwyd llythyr yn ein cynghori bod y Cyngor wedi cychwyn adolygu categorïau Hawliau Tramwy cyhoeddus ac y byddant yn dosbarthu map newydd i'r Cyngor Cymuned yn fuan.

iii) Llythyr a holiadur ynglŷn â'i bwriad i ymgynghori gyda'r cyhoedd i annog ail gylchu a chompostio bwyd. Gofynnwyd i'r clerch gwblhau'r holiadur ar ran y Cyngor

c) Un Llais Cymru

i) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn y Pafiliwn Criced, Dolgellau ar y 12/3/14.

ii) Copi diweddaraf o'r 'Llais' a'u Cylchlythyr Gaeaf 2013/14.

ch) Parc Cenedlaethol

i) Derbyniwyd gwahoddiad i 'Noson y Parc Cenedlaethol a'r Cynghorau Cymuned', yng Nghoed y Brenin ym mis Mai. Cytunodd y Gadeiryddes a'r Clerch fynychu os oedd yn bosib.

ii) Llythyr yn ein cynghori o'r her gyllidol oedd yn wynebu'r Parc a'r prif feysydd fyddai'n cael eu heffeithio gan y toriadau.

Cynllunio.

Derbyniwyd cadarnhad bod y ceisiadau canlynol wedi cael eu caniatáu:-

NP5/72/134F – Codi garej dwbl a mynedfa newydd.. 5 Maes Gwyn, Rhyduchaf

NP5/72/LB143C – Newidiadau i'r hawl cynllunio blaenorol. Eglwys Beuno Sant, Llanycil

Materion Ariannol.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog y clerics (Ionawr i ddiwedd Mawrth)

CTHEM (TWE- Ionawr i ddiwedd Mawrth)

Neuadd Maesywaen (Llogi)

Un Llais Cymru (Tal Aelodaeth)

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cyfrannu i'r canlynol :-

Eisteddfod Talybont, Cylch Meithrin/ Ti a Fi Maesywaen,

Neuadd Y Parc, Ysgol Bro Tryweryn, Sioe Ardal Maesywaen,

Urdd Gobaith Cymru Cylch Penllyn, CFFI Meirionnydd, Ambiwylans Awyr Cymru

Tŷ'r Eos, Cantref, Urdd Gobaith Cymru - Pwyllgor Apêl Y Parc a Pwyllgor Apêl y Waen,

Rhyduchaf, Llidiardau a'r Arenig